DAN DO MÔN

Cylchlythyr i fudiadau gwirfoddol Ynys Môn
Rhif Elusen 1088828 Rhif Cwmni 4197934 Rhifyn 66 Tachwedd 2007

Y Gronfa Llawr Gwlad – cynllun grantiau i grwpiau bychain gwirfoddol a chymunedol ac yn enwedig grwpiau dan anfantais, fe'i cyllidir gan Llywodraeth Cynulliad Cymru a gweinyddir gan Medrwn Môn.

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cynlluniwyd y Gronfa Llawr Gwlad i feithrin gallu mewn grwpiau gwirfoddol a chymunedol bach a ffurfiwyd gan gymunedau buddiant.

Efallai nad yw'r grwpiau hyn wedi denu cyllid blaenorol.

I fod yn gymwys am gyllid, rhaid i grwpiau neu sefydliadau:

- cynrychioli neu wasanaethu 'grwp difreintiedig' – mae'r rhain yn cynnwys lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl, pobl sy'n lesbiaid, hoywon neu'n ddeurywiol, menywod, pobl ddigartref, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, gweithwyr mudol, sipsiwn a theithwyr, pobl â lefelau isel o lythrennedd neu rifedd, y grwpiau hynny sydd wedi'u hynysu a siaradwyr ieithoedd lleiafrifol
- fod wedi'u lleoli, neu'n gweithredu yng Nghymru
- fod â chyfansoddiad derbyniol, neu'n gallu nodi sefydliad â chyfansoddiad a fydd yn derbyn y grant ar eu rhan
- fod yn sefydliad dielw â'u hincwm blynyddol yn llai na £5000

Bydd y cylch cyllid hwn yn agored i geisiadau tan 31 Rhagfyr 2007. Mae cyfanswm dyraniad y gronfa'n llai na £4000 ar gyfer Ynys Môn. Nod y gronfa a weinyddir gan Medrwn Môn yw rhoi cymorth gyda chostau sefydlu a chostau prosiect hyd at tua £300.

Am fwy o fanylion a ffurflen gais cysylltwch â Medrwn Môn ar 01248 724944.

Nid yw'n anorfod mai barn Medrwn Môn a fynegir yn y cyhoeddiad hwn. Cadw'n yr hawl i olygu cyn cyhoeddi. Dyluniwyd a dosbarthwyd y cylchlythyr hwn gan Medrwn Môn.

CYFARFOD BLYNYDDOL MEDRWN MÔN 2007

Cyfarfod Blynyddol Medrwn Môn 2007
Dathlu cyfraniad gwirfoddolwyr i'r gymuned leol

Dathlwyd Cyfarfod Blynyddol 2007 Medrwn Môn yn Neuadd Bentref Llanddeusant, Dydd Iau 27ain o Fedi efo dros 100 o unigolion / gwahoddedigion yn bresennol, yn cynrychioli trawstoriad eang o gynrychiolaeth o'r sector gwirfoddol / cymunedol ar yr ynys.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Eiluned Ann. B. Thomas, a llongyfarchwyd cymuned Llanddeusant ar sicrhau adnodd cymunedol arbennig iawn efo cefnogaeth Medrwn Môn.

Diweddodd y Cadeirydd trwy ddiolch i'w chyd-ymddiriedolwyr, a staff am eu cefnogaeth, i'r holl wirfoddolwyr a grwpiau gwirfoddol am eu hymdrech diflino, gan bwysleisio'r angen am well cydweithio rhwng mudiadau oddi fewn i'n cymunedau gydag adnoddau prin.



Diolchodd John R. Jones, Prif Swyddog Medrwn i'r Cadeirydd am ei gwaith o dan amgylchiadau anodd iawn o golli ei hannwyl ŵr John.

Prif them yn y cyfarfod blynyddol eleni oedd cydnabod cyfraniad gwirfoddolwyr i'w cymunedau lleol – nododd John R. Jones Llanddeusant fel enghraifft arbennig o dda o gymuned yn cydweithio ar brosiect.

Nododd hefyd enghreifftiau eraill yn benodol cyfarfod diweddar ym Mhrifysgol Cymru Bangor, ble cydnabyddir gwirfoddoli yn y dyfodol fel rhan o gwrs Bagloriaeth Cymru fydd yn gysylltiedig â phobl ifanc Môn.

CYFARFOD BLYNYDDOL MEDRWN MÔN 2007

Yn dilyn derbyn y cofnodion, a'r adroddiad ariannol gan y trysorydd Emyr Buckland, nododd y Cadeirydd bod dau o'r ymddiriedolwyr, Mr John Clifford Jones Age Concern Gwynedd a Môn, a Mrs Jean Baker Ymddiriedolaeth Treftadaeth Porthaethwy wedi cwblhau eu cyfnod fel ymddiriedolwyr, a diolchwyd iddynt am eu cyfraniad.

Cwblhawyd y rhan ffurfiol o'r agenda.

Gwr gwadd yn y cyfarfod oedd Mr Derrick Jones, Rheolwr Gyfarwyddwr Cyngor Sir Ynys Môn - nododd o'i brofiadau yng Ngheredigion rôl bwysig y sector wirfoddol mewn darparu gwasanaethau lleol - 'helpu eraill heb ddisgwyl dim yn ôl'.

Gorffennodd y cyfarfod efo Mr Derrick Jones yn cyflwyno amryw o wobrwyon yn cydnabod cyfraniadau grwpiau gwirfoddol ac unigolion a fanteisiodd o wobrau WCVA / cyllid neu hyfforddiant gan Medrwn Môn o 2006 hyd at Fawrth 2007.

Bu pawb yn bresennol fwynhau'r sgwrs anffurfiol, a'r lluniaeth a ddarparwyd gan Ann a Catherine o Bwyllgor Neuadd Bentref Llanddeusant.

NEWYDDION

Lansio gwefan newydd i Ymddiriedolwyr - www.trusteewales.org.uk

Erbyn hyn mae ffynhonnell wybodaeth a chyfarwyddid unigol arbenigol ar gael i Ymddiriedolwyr mudiadau gwirfoddol yn dilyn lansio gwefan newydd y WCVA 'Ymddiriedolwyr a threfn lywodraethol'. Anelir iddo fod yn bwynt canolog i wybodaeth ar holl agweddau o drefn lywodraethol, yn ogystal â darparu llwyfan i alluogi Ymddiriedolwyr i rannu gwybodaeth a gofyn am gymorth drwy'r fforwm a'r cyfryngau adborth.

Bydd y safle yn cynnwys erthyglau a newyddion perthnasol i drefn lywodraethol, ac yn cyfeirio at amrywiaeth o adnoddau defnyddiol.

Cysylltwch â Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol WCVA
Enrico Carpanini ar 029 2043 1779 neu e-bost ecarpanini@wcva.org.uk

---

Mae'r **Groes Goch Brydeinig** yn awyddus i weithio mewn partneriaeth gyda mudiadau sydd yn cefnogi pobl gydag anabledd. Mae ein hyfforddwyr cymorth cyntaf medrus yn creu cyrsiau unigryw i sicrhau datblygiad o sgiliau hanfodol cymorth cyntaf.
Nid yn unig creu rhywun sydd yn medru achub bywydau yw canlyniad dysgu cymorth cyntaf, mae'r profiad hefyd yn datblygu hunan hyder, annibyniaeth a'r gallu i ymateb i argyfwng.

Am fwy o wybodaeth a thrafodaeth am eich anghenion fel mudiad ffoniwch 01745 828330 neu e-bostiwch: JMEvans@redcross.org.uk

British Red Cross
Cangen Gogledd Cymru/North Wales Branch

Cyfarfod rhwng Gweinidog Economi a Thrafnidiaeth a Rhwydweithiau'r Sector Gwirfoddol, 11 Gorffennaf 2007

Croesawodd Brian Gibbons bawb i'w gyfarfod cyntaf gyda'r Sector Gwirfoddol yn ei rôl newydd fel Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth. Mae cofnodion y cyfarfod ar gael o swyddfa Medrwn Môn.

NEWYDDION CYLLIDO

Cynlluniau grantiau bach Age Concern

Bydd gan Age Concern nifer o ddyddiadau cau yn y dyfodol ar gyfer dau gynllun grantiau bach y mae'n eu rheoli i gefnogi mudiadau gwirfoddol sy'n darparu gwasanaethau newydd neu estynedig sy'n dwyn budd uniongyrchol i bobl hŷn. Gwahoddir ceisiadau gan fudiadau gwirfoddol llai yn Lloegr a hefyd yng Nghymru ar hyn o bryd.

Syniadau Gwreiddiol

Mae Syniadau Gwreiddiol yn cynnig grantiau o hyd at £2,000 i fudiadau sydd ag incwm blynyddol o lai na £200,000. Does dim rhaid i ymgeiswyr fod yn elusennau cofrestredig.
Rhaid i'r gweithgareddau ddwyn budd uniongyrchol a pharhaol i bobl hŷn, er enghraifft, canolfannau dydd a chlybiau cinio, ymweld a bod yn gyfaill, gwybodaeth a chyngor, iechyd a diogelwch, gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol, trin traed, ymolchi a thrin gwallt, ysbaid i ofalwyr, garddio a gwasanaethau domestig ayb. Rhaid i'r gweithgareddau fod yn newydd neu'n ehangu darpariaeth gyfredol a dylai pobl hŷn gael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio a rhedeg y prosiect. Mae cefnogaeth cyfalaf a refeniw ar gael.

Rhaglen Barclays

Mae rhaglen grantiau Barclays yn cefnogi mudiadau sydd â throsiant o lai na £50,000. Mae'r grantiau'n fach - hyd at £150 - ac maent ar gyfer gweithgareddau newydd ac estynedig ar gyfer pobl hŷn. Croesewir ceisiadau gan glybiau gwirfoddol ac elusennol annibynnol. Mae'r math o beth y gellid ei gefnogi'n cynnwys: offer megis cyfarpar cegin, cyllyll a ffyrc ayb i grwpiau newydd; nwyddau ar gyfer prosiectau newydd megis offer crefftau, gemau neu siaradwyr gwadd; grantiau ar gyfer eitemau penodol yn hytrach na chyfraniad at gronfeydd cyffredinol.

Dyddiadau cau yn 2008: 10 Ionawr, 14 Chwefror, 10 Ebrill, 15 Mai, 12 Mehefin a 17 Gorffennaf.

Sefydliad i Chwaraeon a'r Celfyddydau

Amcan y cynllun yw budd i'r cyhoedd yn gyffredinol yn y DU ac i gynorthwyo cyfranogiad nifer uwch o bobl ynghlwm wrth chwaraeon a'r celfyddydau.

Gwahoddir ceisiadau gan fudiadau, grwpiau o unigolion, neu unigolion ynghlwm wrth ddarparu neu gymryd rhan y meysydd yma, yn cynnwys mudiadau ymbarél cenedlaethol a'u haelodau cysylltiedig.

Mae holl ranbarthau'r DU yn gymwys ac mae'n bolisi'r Sefydliad i sicrhau cydbwysedd daearyddol.

Mwy o wybodaeth ar gael o: www.thefsa.net

NEWYDDION CYLLIDO

Iechyd Meddwl Lleol Y Cynllun Grantiau Bach 2008-2009

Mae'r cynllun grantiau bach yn grant un-tro, a'r uchafswm grant (fesul prosiect) sydd ar gael i fudiadau cymwys yw £3,000. Gwahoddir ceisiadau dan y cynllun grantiau bach newydd hwn. Pwrpas y cynllun yw cefnogi a gwella cyfraniad y sector gwirfoddol i'r gofal a gaiff pobl sy'n wynebu problemau iechyd meddwl a'u teuluoedd a'u gofalwyr yng Nghymru.

Gellir ystyried amrywiaeth eang o brosiectau am gyllid, gan gynnwys: darparu offer a gwella adeiladau; cyhoeddiadau; ymchwil; hyfforddiant i staff a gwirfoddolwyr; gweithgareddau achlysurol megis teithiau undydd. Anelir y cynllun fudiadau gwirfoddol cyfansoddiadol nad ydynt ar hyn o bryd yn cael nawdd drwy gyfrwng y cynllun Grantiau Iechyd Meddwl Lleol ar hyn o bryd.

Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn ceisiadau yw 18 Ionawr 2008.

Gellir cael pecyn cais gan Lein Gymorth WCVA 0800 2888 329,
e-bost help@wcva.org.uk

Ymddiriedolaeth Genedlaethol yr Eglwysi

Bydd yr ymddiriedolaeth yn ariannu gwaith trwsio strwythurol i eglwysi, capeli, tai cwrdd a mannau addoli eraill yng Nghymru a Lloegr sydd dros 100 oed. Ystyrir pob cais yn ôl ei rinweddau arbennig ei hun, a rhennir y grantiau a ddyfernir i bedwar categori:

- Grantiau conglfaen - eglwysi a gwerth pensaernïol, cymdeithasol a hanesyddol eithriadol sydd â diffyg ariannol o dros £15,000
- Grantiau Safonol - eglwysi sydd â diffyg o dros £15,000 ond sydd ag angen cymorth llai brys nag ymgeiswyr conglfaen
- Grantiau sylfaen – eglwysi sy'n chwilio am rhwng £4,000 a £15,000 a
- Grantiau cyfleusterau – cymorth tuag at osod cyfleusterau newydd megis toiledau, gwres, neu gymorth tuag at hwyluso mynediad.

Cysylltwch â: Ymddiriedolaeth Genedlaethol yr Eglwysi,
31 Newbury Street, Llundain. EC1A 7HU

Ffon: 0207 600 6090 Ffacs: 0207 796 2442
e-bost: info@nationalchurchestrust.org

Ymddiriedolaeth Elusennol Batty - Mae'n cefnogi elusennau cofrestredig a chyrff elusennol eraill yn y DU lle gallai grantiau o rhwng £1,000 a £10,000 wneud gwahaniaeth arwyddocaol. Fel arfer, bydd yr Ymddiriedolaeth yn cefnogi elusennau llai, yn enwedig rhai llawr gwlad ar lefel gymunedol.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â: Ymddiriedolaeth Elusennol Batty
Rugby Chambers, 2 Rugby Street, Llundain WC1N 3QU

Ffôn: 020 7405 0225 Ffacs: 020 7430 9830
e-bost: info@battycharitabletrust.org.uk

NEWYDDION CYLLIDO

Gwybodaeth a meini prawf ar gyfer Cynllun Grant 'Sport Relief'

Defnyddio chwaraeon i ymgodymu gwaharddiad ac unigedd a brofir gan rai o gymunedau tlotaf a mwyaf difreintiedig.

Sut fath o brosiectau gallwch geisio amdanynt?

Edrychir i gefnogi grwpiau cymunedol sy'n defnyddio chwaraeon i:

- Gynyddu mynediad i chwaraeon ac ymarfer corff i bobl sy'n wynebu gwaharddiad cymdeithasol ac unigedd;
- Helpu pobl sy'n profi anawsterau yn eu bywydau i adennill eu hyder a'u hunan-barch;

Rhoddir blaenoriaeth i grwpiau lleol mewn ardaloedd difreintiedig sydd â dealltwriaeth glir o anghenion cymunedau sy'n defnyddio chwaraeon ac ymarfer corff fel modd o gyfeirio'r anghenion hyn.

Maent yn chwilio'n arbennig am brosiectau fydd yn cael effaith llesol parhaus ar fywydau pobl yn hytrach na digwyddiadau unwaith yn unig a byddant ond yn ystyried costau offer fel rhan o brosiect.

Faint sydd ar gael?

Dyrennir grantiau 'Sport Relief' am symiau rhwng £1,000 to £10,000

Beth yw dyddiadau cau am 2007/08?

Dydd Gwener 14 Rhagfyr 2007 Dydd Iau 20 Mawrth 2008
Dydd Gwener 20 Mehefin 2008 Dydd Gwener 19 Medi 2008

Sut gellir ymgeisio?

I gael ffurflen gais am grant cysylltwch â:

Swyddog Grantiau, Sefydliad Cymunedol yng Nghymru
14-16 Merthyr Road, Whitchurch, Caerdydd. CF14 1DG

Ffôn: 029 20 520250 E-bost: susan@cfiw.org.uk
Gwefan: www.cfiw.org.uk

The Community Foundation in Wales
Y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru

NEWYDDION LLEOL

Seminar Cronfa Loteri Fawr:
Gwesty Carreg Môn, Llanfairpwll
Dydd Gwener – 12fed Hydref 2007, am 11.00am

Bu hyd at 50 o unigolion yn cynrychioli traws-doriad eang o'r sector gwirfoddol / gymunedol bresenoli mewn seminar gyllido a gynhaliwyd yng Ngwesty Carreg Môn Llanfairpwll Dydd Gwener 12fed Hydref 2007 o dan drefniant y Gronfa Loteri Fawr mewn partneriaeth â Medrwn Môn.

Roedd y pedwar prif ddosbarthwr Loteri yn bresennol - Cronfa Loteri Fawr, Cronfa Treftadaeth Loteri, Cyngor Celfyddydau Cymru, a Chyngor Chwaraeon Cymru i roi cyflwyniadau, rhannu gwybodaeth, ac ateb cwestiynau.

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Eiluned Ann.B.Thomas Cadeirydd Medrwn Môn, ac fe gyflwynodd y siaradwyr a amlinellwyd eu rhaglenni grant cyfredol, a'u meini prawf i ymgeisio.

Gwr gwadd y cyfarfod oedd Albert Owen A.S. Ynys Môn, cyfeiriodd at ei brofiad o weithio yn y sector wirfoddol cyn dod yn A.S. yn arbennig ei rôl i sicrhau cyllid i ail-ddatblygu Neuadd Bentref Llaingoch Caergybi - gwerthfawrogodd gyfraniad Medrwn Môn ar y lefel sylfaenol i gynorthwyo grwpiau gwirfoddol.

Cyfeiriodd Deian Creunant o'r Gronfa Loteri Fawr yn arbennig at y gronfa ***'Pawb a'i Le'*** sydd yn y lle cyntaf yn ymwneud ag adfywio cymunedau / gwella mwynderau - £66miliwn ar gael hyd at 2009.

Cyfeiriodd hefyd at ddwy raglen grant o dan y them ***Teuluoedd Iach,*** sef ***Chwarae Plant*** a ***Ffordd o Fyw,*** yn ogystal â'r gronfa i bobl ifanc ***Dyma dy Gyfle,*** yn ogystal â'r un hynod boblogaidd ***Arian i Bawb Cymru*** hyd at £5,000

Pwysleisiodd Liz Girling, swyddog datblygu efo Cronfa Loteri'r Dreftadaeth y meini prawf wrth gyflwyno cais o 'warchod a gwella, mwy o bobl i fod ynghlwm, dysgu a mynediad'

Cyfeiriwyd at gais loteri treftadaeth lwyddiannus i atgyweirio bad achub Cemaes y Charles Henry Ashley - ble bu llawer o nodweddion da eu cynnwys yn y cais yma - atgyweirio, rhaglen addysgol i'r gymuned, gwefan, taflenni, byrddau dehongli, hyfforddiant.

NEWYDDION LLEOL

Pwysleisiwyd bod grantiau treftadaeth y loteri yn fwy nag adeiladau a mannau addoli.

Soniodd Neil Pringle o Gyngor Chwaraeon Cymru a'n cyswllt ni yma ar Ynys Môn, dair rhaglen grantiau a weinyddir gan Gyngor Chwaraeon Cymru -
Cist Gymunedol - i fyny at £1,000 i sbarduno ymglymiad sylfaenol mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol / byw yn iach.
Prif Grantiau – hyd at £10,000 at weithgarwch neu i gefnogi clybiau cryf sefydlog.
Grantiau cyfalaf – prosiectau mwy.

Y brîf amcan i ddenu 'mwy o bobl, mwy bywiog, mwy aml' yn eu ceisiadau am grant.

Amlinellodd Sian Tomos, Swyddog Rhanbarthol Cyngor Celfyddydau Gogledd Cymru'r brîf amcan o grantiau'r celfyddydau 'i hyrwyddo'r celfyddydau, yn arbennig rhagoriaeth mewn pob ffurf - dawns, llenyddiaeth, dawns ayb'.

Pwysleisiwyd yn arbennig at gyswllt y celfyddydau a'r economi.

Yn olaf cafwyd cyflwyniad gan Gwyn Morris Jones ar brosiect Nant y Pandy Llangefni yn dilyn cais grant llwyddiannus oedd yn golygu ymestyn Nant y Pandy trwy bryniant tir, plannu coed, cadwraeth ag amddiffyn planhigion a bywyd gwyllt.

Roedd y pedwar dosbarthwr yn bresennol i drafod ymhellach unrhyw ymholiad ar geisiadau penodol, felly hefyd staff Medrwn Môn yn cynnig cyngor a chefnogaeth i unrhyw brosiect cyfredol, neu i ddatblygu syniadau i ffurfio cais safonol i'r dyfodol.

Cysylltwch â Medrwn Môn ar 01248 724944 am sgwrs anffurfiol.

NEWYDDION

GALW AM DYSTIOLAETH - CYHOEDDI YMCHWILIAD PWYLLGOR: CYLLIDO SEFYDLIADAU YN Y SECTOR GWIRFODDOL

Mae'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant wedi penderfynu cynnal ymchwiliad i'r cyllid a ddarperir i sefydliadau yn y sector gwirfoddol yng Nghymru ac y mae'n galw am y rheiny sydd â diddordeb neu arbenigedd yn y maes hwn i roi tystiolaeth ysgrifenedig.

Cefndir - Mae tua 30,000 o sefydliadau gwirfoddol a sefydliadau'r trydydd sector yng Nghymru; gyda chyfanswm incwm o dros £1 biliwn. Y brif ffynhonnell o ran incwm yw arian y llywodraeth, sy'n cyfrannu rhyw drydedd rhan o'r incwm i'r sector hwn. Bydd ein hymchwiliad yn casglu tystiolaeth ar faterion cyffredinol sy'n gysylltiedig â chyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y sector gwirfoddol fel y gallwn nodi problemau penodol ac enghreifftiau o arferion da – a gwneud argymhellion priodol i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Cylch Gorchwyl - Cynnal ymchwiliad craffu i ddull strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru o ariannu'r sefydliadau'r sector gwirfoddol yng Nghymru:

Bydd y Pwyllgor yn archwilio:

- polisi ariannu sefydliadau gwirfoddol Llywodraeth Cynulliad Cymru;
- cyfarwyddiadau polisi a roddir i gyrff ariannu perthnasol;
- gweithdrefnau ar gyfer monitro canlyniadau ariannu o'r fath;
- materion 'cyllidebau ar sail rhyw' mewn perthynas ag ariannu o'r fath;
- rhwyddineb neu'r anhawster a gafodd sefydliadau perthnasol o ran cael mynediad at arian; cyflwyno adroddiad i'r Gweinidog Cymreig perthnasol, gydag argymhellion.

Gofynnir am dystiolaeth er mwyn ceisio'ch sylwadau ar y materion canlynol:
1 rhwyddineb neu'r anhawster o ran cael arian gan Lywodraeth Cynulliad Cymru neu gyrff ariannu cenedlaethol perthnasol.
2 rhwyddineb neu'r anhawster o ran cydymffurfio â'r cyfyngiadau neu'r amodau a roddir ar ariannu.
3 Materion yn ymwneud â pharhad neu amseru'r ariannu.
4 Unrhyw sylwadau eraill sy'n berthnasol i'r ymchwiliad.

Gofynnir i'r rheiny sydd â diddordeb gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i glerc y pwyllgor yn y cyfeiriad isod, i gyrraedd dim hwyrach na dydd Gwener 30 Tachwedd 2007. Gofynnir i chi ddarparu fersiwn electroneg ar ffurf MS Word neu Rich Text Format, drwy e-bost at Community.Culture.Comm@Wales.gsi.gov.uk neu ar ddisg.

EIN CYFEIRIAD YW:
Neuadd y Sir, Ffordd Glanhwfa
LLANGEFNI
Ynys Môn LL77 7EN
Ffôn: 01248 724944
Ffacs: 01248 750149
E-bost: post@medrwnmon.org
Safle We: www.medrwnmon.org